

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Setliad Dros Dro

Llywodraeth Leol 2022-2023

Rhestr o'r ymatebion a ddaeth i law oddi wrth:

Cyngor Bwrdeistref Sirol y Fflint
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Crynodeb o'r Prif Sylwadau

DS: Mae'r canlynol yn adlewyrchu barn a dehongliadau'r ymatebwyr fel y'u nodir yn eu hymatebion.

Cyngor Sir y Fflint – Setliad Dros Dro o 9.2 %

Mae'r Cyngor yn croesawu'r cynnydd o 9.2% mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) ond mae'n dal i wynebu her sylweddol i gydbwysu ei gyllideb yn ddiogel am y tair blynedd nesaf. Mae hyn o ganlyniad i gynnydd sylweddol yng nghostau'r gweithlu, rhoi'r gorau i'r gronfa galedi, cynnydd sylweddol mewn chwyddiant ynghyd â gofynion lefel gwasanaeth yn enwedig y Sector Gofal a chynnydd blynyddol AEF sylweddol is ar gyfer 2023-24 a 2024-25

Byddant yn parhau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol drwy bennu cyllideb ddiogel, gyfreithiol a chytbwys dros y tair blynedd nesaf ond bydd yn heriol iawn.

Mae Sir y Fflint yn sôn eu bod yn credu bod lefelau ariannu a ddarperir i Gynghorau Cymru yn annheg o'u cymharu fesul pen o'r boblogaeth. Hwn yw'r 6ed Cyngor mwyaf yng Nghymru yn ôl poblogaeth ond ar hyn o bryd mae'n 20fed ar sail ar y cyllid hwn. Pe bai'n cael yr un swm o arian y pen o gyfartaledd Gogledd Cymru, byddai ganddo £21m yn ychwanegol y flwyddyn. Bydd awdurdod cyfagos Sir Ddinbych sydd â nodweddion tebyg yn cael cyllid o £1,808 y pen yn 2022-23 o'i gymharu â £1,476 ar gyfer Sir y Fflint – sef gwahaniaeth o £332 y pen o'r boblogaeth, a £52.2m y flwyddyn fesul pen o'r boblogaeth.

Maent yn teimlo nad oes cyfiawnhad mewn amrywiadau mawr o'r cyllid hwn ac maent yn awgrymu ystyried mesur dros dro ar sail 'trothwy' i helpu i leihau gwahaniaethau ariannu mawr rhwng Cynghorau ar frig ac ar waelod y tabl.

Maent yn gwerthfawrogi y byddai unrhyw adolygiad sylfaenol o Fformiwla Cyllido Llywodraeth Leol yn ymarfer hir a chymhleth gyda heriau sylweddol, ond maent yn teimlo mai dyma'r unig ffordd ymlaen.

Cyngor Sir Penfro - Setliad Dros Dro o 9.4 %

Mae'r Cyngor yn sylweddoli bod 2021-22 wedi bod yn flwyddyn ddigynsail oherwydd y pandemig a bod adolygiad o wariant Llywodraeth y DU wedi achosi oedi wrth gyhoeddi'r setliad. Byddent felly'n croesawu mynd yn ôl i gael y Setliad Dros Dro ym mis Hydref a'r Setliad Terfynol ym mis Rhagfyr yn y blynyddoedd i ddod. Mae darparu'r dyraniadau cyllid refeniw craidd dangosol ar lefel Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn rhoi lefel o sicrwydd iddynt ar gyfer eu cynllunio ariannol tymor canolig.

Croesewir eu cynnydd o 9.4% ar gyfer y flwyddyn nesaf ond bydd ganddynt nifer o bwysau ariannol ychwanegol o hyd gan gynnwys cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal a dyfarniad cyflog uwch o bosibl ar gyfer staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu nag a ragwelwyd yn flaenorol. Bydd y cynnydd o £16.9m yn cyfrannu at ddelio â'u pwysau ariannol o fwy na £31m - gyda Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant o dan y pwysau ariannol mwyaf sylweddol. Hyd yn oed gyda chynnydd mewn cyllid, gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau parhaus Covid-19 a chynnyddu'r Dreth Gyngor 5%, bydd angen arbed £7.4m yn y gyllideb o hyd.

Maent yn rhag-weld y bydd llawer o bwysau ariannol yn parhau yn y tymor canolig felly byddent yn croesawu gweithio gyda'r Gweinidog i nodi model ariannu mwy cynaliadwy yn ariannol ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cyngor yn croesawu eu codiadau setliad dangosol o 3.5% a 2.4% yn y drefn honno ond yn seiliedig ar amcanestyniadau ariannol cyfredol ar gyfer 2023-24 a 2024-25, nid yw ond yn darparu lefel debyg o gyfraniad fel yn eu pwysau ariannol ar gyfer 2022-23.

Mae'r Cyngor yn gofyn bod grantiau refeniw penodol yn cael eu cynnwys yn y Setliad fel arian heb ei neilltuo gan y byddai hyn yn lleihau baich rheoli a gweinyddu grantiau ac yn helpu eu cynllunio ariannol. Er i gyllid grant annisgwyl gael ei groesawu, mae cael gwybod amdano'n hwyr yn y flwyddyn ariannol a'i gwneud yn ofynnol iddynt ei wario erbyn diwedd 2021-22 yn gallu bod yn anodd ac maent yn gofyn am gael eu hysbysu'n gynharach er mwyn cynllunio'n effeithiol.

Mae cyllid grant refeniw a chyfalaf dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn rhoi lefel o sicrwydd ar gyfer cynllunio ariannol tymor canolig. Er bod rhywfaint o gyllid grant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn nesaf yn dangos ei fod 'i'w gadarnhau', mae'n ymddangos o hyd y bydd gostyngiad cyffredinol yn y cyllid grant hwn, yn benodol y cyllid cyfalaf cyffredinol. Gan fod yr awdurdodau'n canolbwyntio ar brosiectau adfywio a chyfalaf wrth iddynt wella ar ôl pandemig Covid-19, maent yn gweld hyn yn siomedig.

Er bod cyllid Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) wedi'i gadw ar gyfer 2022-23, mae'n ostyngiad blynyddol i bob pwrpas. Mae eu costau CTRS eu hunain £2m yn fwy na'r arian a dderbynnir felly hoffent weld yr arian hwn yn cael ei gynyddu.

Mae Sir Benfro yn dweud y gallai'r setliad arfaethedig gynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Maent yn diolch i'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru am y cyllid caledi parhaus a ddarparwyd drwy gydol yr ymateb i bandemig Covid-19. Maent yn cydnabod bod y daw'r cyllid i ben ar 31 Mawrth 2022, ond os bydd cynnydd arall yn Covid-19 yn ystod 2022-23 gan arwain at sefyllfa o gyfyngiadau symud, maent yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru (neu Lywodraeth y DU) yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi'r pwysau ariannol sy'n deillio o hynny.

Mae'r "dull partneriaeth" rhwng Llywodraeth Cymru, CLILC a'r awdurdodau lleol mewn ymateb i COVID 19 wedi gweithio'n dda ac fe ddylai barhau yn y dyfodol.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen - Setliad Dros Dro o 9.3%

Mae Torfaen yn dweud bod y gwaith partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi bod yn allweddol wrth helpu'r awdurdodau i lywio eu ffordd drwy'r ddwy flynedd anodd a heriol hyn, ac mai ymddiriedaeth a bod yn agored fu conglfaen eu hymateb i'r pandemig. Mae lefel yr ymgysylltu cadarnhaol ar lefel wleidyddol ac ar lefel swyddogion drwyddi draw wedi bod yn sylweddol ac mae wedi arwain at ganlyniadau llawer gwell tra'n cydnabod y cymorth ariannol sylweddol gan Lywodraeth Cymru.

Wrth i gynghorau ddod allan o'r pandemig a dechrau'r daith adfer, mae'r angen i weithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn bwysig. Mae angen cyllid i gynnal a chaniatáu buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ac mae'r setliad dros dro yn newyddion da iawn i lywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r cynnydd mewn cyllid craidd yn ddigynsail ac yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn ymddiried mewn llywodraeth leol i fuddsoddi mewn dyheadau cyffredin. Maent yn cydnabod y nodiadau rhybuddiol yn y naratif sy'n cyd-fynd â'r setliad a byddant yn eu cymryd i ystyriaeth yn llawn yn eu trafodaethau ar y gyllideb.

Croesawyd yr arwyddion o gyllid ar gyfer y blynyddoedd i ddod ond hoffent weld gwybodaeth ar lefel grant awdurdodau unigol a fyddai hefyd yn eu cynorthwyo i gynllunio yn y tymor canolig.

Mae eleni wedi dangos unwaith eto fanteision cydweithio ac mae Torfaen wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni dyheadau cyffredin ar gyfer eu dinasyddion.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - Setliad Dros Dro o 8.4%

Roedd y Cyngor yn falch o nodi bod canlyniad cyffredinol y setliad dipyn yn well na'r hyn a ragwelwyd ac y cynlluniwyd ar ei gyfer yn eu Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Roedd llawer o agweddau cadarnhaol ar y setliad ar lefel Cymru gyfan gan gynnwys y cynnydd mewn cyllid uwchlaw chwyddiant, trosglwyddiadau i'r setliad a rhewi'r lluosydd Ardrethi Annomestig am flwyddyn arall.

Bydd y cynnydd dangosol mewn cyllid ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25 o gymorth mawr yn eu gwaith cynllunio ariannol tymor canolig.

Efallai y bydd pandemig Covid-19 yn dal i gael rhywfaint o effaith yn y tymor canolig felly mae'r Cyngor yn nodi, gyda gofal, drosglwyddiad risg ariannol i'r awdurdodau lleol drwy'r setliad.

Mae cynnwys yr wybodaeth benodol am grantiau yn gynnar yn gyfle datblygu allweddol. Mae angen ystyried hyn ymhellach ar lefel awdurdod unigol yn hytrach na lefel Cymru gyfan gan y bydd yn cynorthwyo'r gwaith o gynllunio'r gyllideb ac yn canfod y goblygiadau i'r gweithlu.